



Cyngor Bwrdeistref Sirol

MERTHYR TUDFUL

MERTHYR TYDFIL

County Borough Council

Hyfforddiant

Teithio'n

Annibynnol

Canllaw ar gyfer Rhieni / Gofalwyr

1. CYFLWYNIAD

Beth yw Hyfforddiant Teithio?

Nod hyfforddiant teithio yw cynorthwyo'r rheini sydd angen rhagor o gymorth a chefnogaeth i deithio'n ddiogel ar eu pennau eu hunain. Bydd hyn yn gymorth i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i ddyfod yn ddysgwyr mwy annibynnol.

Gall hyfforddiant teithio gynnwys amrywiaeth eang o gefnogaeth drwy:

- Ddarparu hyfforddiant byr dymor i gynorthwyo dysgwyr i ymgyfarwyddo â sut y mae trafndiaeth gyhoeddus yn gweithio yn yr ardal a rhoi'r hyder iddynt i'w ddefnyddio; neu
- Ddarparu hyfforddiant mwy hirdymor, rheolaidd, dwys, un i un i ddysgu pwysigrwydd diogelwch ar y ffordd a sgiliau ymwybyddiaeth bersonol.

At bwy y cafodd ei anelu?

Gall hyfforddiant teithio gynorthwyo dysgwyr o bob oed, gallu ac angen sy'n dioddef diffyg ymwybyddiaeth diogelwch ar y ffordd a gwybodaeth o sut i deithio ar drafndiaeth gyhoeddus. Mae Hyfforddiant Teithio yn hynod fanteisiol ar gyfer unigolion sydd ag Anghenion Addysgu Ychwanegol (AAY.)

Caiff unigolion o'r fath fel arfer eu cludo gan dacs drwy drefniant nes bod dim ei angen mwyach. Gall yr unigolion hyn ddanto wrth geisio cael mynediad at leoliadau gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd bywyd eraill gan nad oes ganddynt brofiad blaenorol o baratoi a chynllunio teithio'n annibynnol. Bydd llawer yn anghyfarwydd â lle y mae dod o hyd i wybodaeth neu gyngor neu hyd yn oed y sgiliau i wneud y teithiau eu hunain.

Gall hyfforddiant teithio hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer unigolion sy'n cael anhawster wrth fynd o le i le yn sgil anabled neu salwch diweddar.

Nodwch: Bydd angen i unigolion sydd â nam ar eu golwg neu sydd yn ddall feddu ar sgiliau mordwyo neu gyfeiriadedd arbenigol nad yw'n rhan o hyfforddiant teithio. Fodd bynnag, mae Swyddog Symudedd Arbenigol ar gael all ddarparu cymorth. Os bydd angen y gwasanaeth hwn, cysylltwch â Lisa Beattie. Lisa.Beattie@merthyr.gov.uk

2. AMCANION, NODAU A MANTEISION

Unwaith bydd y dysgwr wedi llwyddo'n annibynnol ac y gall deithio ar ei ben ei hun, bydd cludiant a drefnwyd / tacsis yn dod i ben a bydd pasys bws / trên yn cymryd eu lle. Gall y pasys hyn gael eu defnyddio i deithio i'r ysgol, coleg, hyfforddiant, canolfan ddydd a lleoliadau gwaith ac yn ôl gan wneud defnydd llawn felly o'r sgiliau newydd a'r cyfleoedd i ddyfod yn fwy annibynnol.

Nodwch y bydd y pasys bws ond yn cael eu dyrannu ar sail cymhwysedd ar gyfer cludiant am ddim (h.y. yn seiliedig ar y polisi cludiant.) Gall rhai dysgwyr fod yn gymwys ar gyfer cydymaith neu bas anabl i deithio am ddim ar y gwasanaeth bws cyhoeddus yng Nghymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ar **01685 725000**

Byddai'n ddisgwyliad i anghenion teithio unigolyn gael eu dynodi fel rhan o'i adolygiad blynyddol a fyddai'n cael ei ddatblygu'n dargedau yn ei GDU, fel sy'n addas i anghenion y dysgwr.

Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol

Amcanion

- Ymgysylltu ag ysgolion er mwyn hybu diwylliant cynaliadwy o annibyniaeth ledled Merthyr Tudful drwy wneud cysylltiadau perthnasol â'r cwricwlwm.
- Symbylu pobl ifanc sydd am deithio'n annibynnol ac annog datblygiad hirdymor o sgiliau bywyd.
- Hyfforddi a chefnogi pobl ifanc sydd ag AAY ym maes teithio'n annibynnol; sgil hanfodol er mwyn byw'n annibynnol.
- Darparu amgylchedd dysgu diogel lle y gall pobl ifanc sicrhau annibyniaeth a deallusrwydd.
- Annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

Manteision ar gyfer Unigolion

- Gwell annibyniaeth, gwydnwch a hunanhyder.
- Ymwybyddiaeth o ddiogelwch personol.
- Cynhwysiant cymdeithasol, dewis a chydaddoldeb.
- Y gallu i fwynhau teithio ar eu pennau eu hunain neu gyda ffrindiau o amgylch Merthyr Tudful. Iechyd a Lles – mae cerdded a defnyddio'r bws yn hybu bywyd heini ac ymarfer corff.
- Gwell ansawdd bywyd, datblygiad cymdeithasol a phersonol; gorchfygu rhwystrau.
- Mynediad at addysg bellach, gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd eraill mewn bywyd, beth bynnag fo'r anabledd.
- Pontio esmwyth i fyd oedolyn.
- Bydd y sgiliau a fydd yn cael eu dysgu'n amrywiol ac yn drosglwyddadwy; ymdrin ag arian, deall amser, ymwneud â phobl eraill, ymdrin â sefyllfaoedd newydd a'r annisgwyl, cynllunio a pharatoi siwrneiau.

Manteisio i Rieni/Gofalwyr

- Bydd y dysgwr yn cael ei hyfforddi gan Weithiwr Allweddol neu weithiwr y mae eisoes yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo. Gallai hyn fod yn athro dosbarth, rhywun yn y lleoliad addysgol neu'n rhiant/gofalwr ac ati.
- Darperir hyfforddiant teithio ar sail un i un neu mewn grŵp gan ystyried anghenion personol yr hyfforddai, hyder a lefel sgiliau.
- Byddai hyfforddiant teithio'n cael ei ddarparu fel rhan o'r cwricwlwm ac yn ddibynnol ar ddatblygiad y dysgwr, ei wneud yn ddi-straen ac yn llawn mwynhad.
- Bydd y dysgwr yn cael ei hyfforddi i safon uchel, yn deall y sgiliau allweddol a'r tasgau a fydd yn ei alluogi i gerdded a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ddiogel.
- Bydd y dysgwr yn medru gwneud y gorau o'i fywyd fel oedolyn annibynnol.
- Rhagor o annibyniaeth bersonol ar gyfer rhieni/gofalwyr wrth i ddysgwyr ddyfod yn fwy hyderus a medru teithio'n annibynnol.

Fel rhieni/gofalwyr byddwch yn rhan o'r broses o'r dechrau a byddwch yn chwarae rhan bwysig yn atgyfnerthu'r sgiliau. Bydd y Gweithiwr Allweddol yn ymgynghori â chi ar bob cam o'r broses fel bod gennych ddealltwriaeth lawn o'r hyn y mae'r hyfforddiant yn ei olygu a sut y mae'n datblygu. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon yn ystod y broses, bydd eich Gweithiwr Allweddol dynodedig yn barod i'ch cynorthwyo.

3. BETH A OLYGIR WRTH HYFFORDDIANT TEITHIO YMARFEROL?

Ystafell Ddosbarth/Cartref

Targedau: Cyn y bydd hyfforddiant ymarferol yn dechrau, bydd Gweithwyr Allweddol yn sefydlu rhai nodau â phob dysgwr. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd na fydd y dysgwr, i ddechrau'n teimlo'n gyfforddus â hwy fel deall amser, gwella hunanhyder, gwydnwch, gwella sgiliau cyfathrebu.

Ymddygiad Teithio: Gofynnir i bob dysgwr ddynodi'n glir beth y credant sy'n ymddygiad derbynol ac annerbynol wrth gerdded, defnyddio'r bws a chyfathrebu ac ymwneud ag aelodau o'r cyhoedd.

Cynllun Teithio: Bydd Cynllun Teithio Unigol a fydd yn nodi llwybr dychwelyd pob un dysgwr yn cael ei baratoi gan y Gweithiwr Allweddol a'r dysgwr. Gyda'i gilydd, byddant yn trafod sut i baratoi ar gyfer siwrneiau gan ystyried y llwybr a'r dull teithio yn ogystal ag ystyried pa esgidiau a dillad y dylid eu gwisgo mewn tywydd gwahanol ac ar wahanol adegau o'r dydd. Byddant hefyd yn cynllunio'r daith, ar y cyd gan edrych ar sut i ganfod gwybodaeth ynghylch y daith, sut i benderfynu ar y dull mwyaf addas o deithio, rheolaeth amser, darllen amserlenni bws a mapiau, ymdrin â'r annisgwyl a sgiliau cyfathrebu.

Ymarferol – Cyfarwyddyd cam wrth gam

Bydd yr hyfforddiant ymarferol yn dilyn y tri cham isod ond bydd y manylder a'r amser a fydd yn cael eu treulio ar bob lefel yn cael eu gosod yn unigol er mwyn bod yn addas ar gyfer pob dysgwr a hynny'n unol â chytundeb gan y rhiant / gofalwr. Bydd cyfrifoldebau'n cael eu hegluro yn ystod cyfnod cynnar y Cynllun Teithio.

1. Cyd-deithio: Ar gam cychwynnol yr hyfforddiant teithio, bydd rhaid i'r dysgwr gael ei hebrwng i'r gyrchfan a dychwelyd oddi yno. Bydd hyn o'i gyfeiriad cartref i'r man cyfarfod y cytunwyd arno.

2. Cysgodi: Yn ystod yr ail gam, bydd rhaid cysgodi'r dysgwr o bellter diogel er mwyn asesu ei lefel sgiliau a'i alluogrwydd; croesi ffyrdd yn ddiogel, rheolau'r ffordd fawr, mynd ar ac oddi ar y bws a'r modd y mae'n cyfathrebu â gyrrwr y bws. Bydd y dysgwr yn cael ei gynorthwyo yn ei gartref neu'r man cyfarfod y cytunwyd arno er mwyn sicrhau ei fod yn hyderus ac yn barod ar gyfer y daith.

3. Cyfarfod a Chroesawu: Yn ystod y trydydd cam, bydd angen cyfarfod â'r dysgwr yn ei gartref neu yn y man cyfarfod y cytunwyd arno er mwyn sicrhau ei fod yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i deithio ar hyd y llwybr. Bydd y dysgwr yn a'n teithio'n annibynnol ar hyd holl lwybr y daith i'r gyrchfan lle y bydd unigolyn yn cyfarfod ag ef cyn mynd ag ef i mewn i'r sefydliad.

Ni fydd dysgwr yn cael ei adael i deithio ar ei ben ei hun nes y bydd y sawl sy'n gyfrifol amdano yn teimlo'i fod yn abl i deithio heb iddo fynd ar goll neu fod yn hwyr. Bydd y dysgwr yn cael ei gysgodi ar hyd y daith, nifer o weithiau cyn y bydd yn gwneud y daith ar ei ben ei hun.

4. CYRRAEDD YNO'N DDIOGEL

Mae'n bwysig fod y dysgwr yn cael ei hyfforddi mewn amgylchedd diogel gan ddyfod yn fwy cyfarwydd, yn raddol i fod allan yn y gymuned, defnyddio dulliau gwahanol o drafnidiaeth gyhoeddus a symud yn nes at deithio'n annibynnol.

Nod y tri cham hyfforddiant ymarferol y manylir arnynt uchod yw gwella lefel sgiliau a hunanhyder unigolion a'u hyfforddi i wneud y daith yn rheolaidd, i'w cyrchfan ac oddi yno, yn annibynnol.

Bydd datblygiad pob dysgwr yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Pan fydd y sawl sy'n gyfrifol yn teimlo fod y dysgwr yn barod i ddatblygu i'r cam hyfforddi nesaf, bydd rhaid cael cytundeb gyda'r dysgwr a'r rhiant / gofawr cyn y bydd modd symud ymlaen. Bydd cyswllt rheolaidd rhwng rhieni / gofawr a'r ysgol yn sicrhau fod pawb yn gwybod beth sy'n digwydd yn rheolaidd gan osgoi dryswch a phoen meddwl.

Asesiadau Risg

Mae asesiad risg trosfwaol wedi cael ei baratoi er mwyn gwerthuso unrhyw risgiau posib ar gyfer pawb sydd yn rhan o'r broses e.e. y dysgwr, **Gweithiwr Allweddol**, aelodau o'r cyhoedd a / neu weithredwyr bws yn ystod y broses hyfforddi. Mae mesurau ymarferol wedi cael eu gosod er mwyn rheoli a lleihau'r risg.

Unwaith y bydd llwybr i'r cyrchfan ac oddi yno wedi cael ei ddynodi ar gyfer pob dysgwr, mae'n bwysig fod y dysgwr a lle y mae hynny'n briodol, aelodau o Dîm Diogelwch y Ffordd yn gwneud asesiad risg unigol cyn y gellir dechrau hyfforddi. Gallai Tîm Diogelwch y Ffordd gynorthwyo ag argaeledd llwybrau cerdded. Gallai hyn o bosib gynnwys y llwybr cyfan i'r ysgol neu i'r arosfan bws agosaf. Yn ystod hyn, bydd y Gweithiwr Allweddol hefyd yn cerdded y llwybr gan ei fod yn deall anghenion y dysgwr. Fel arfer, bydd y llwybr mwyaf uniongyrchol yn cael ei ddynodi, fodd bynnag, dylid sicrhau mai dyma yw'r llwybr mwyaf diogel.

Ategolion Diogelwch

Er mwyn hwyluso teithio, gellir darparu ategolion penodol i'r dysgwr, fel:

- Pás bws;
- Cerdyn gofal ychwanegol (waled oren) – wedi'i greu yn unigol ar gyfer pob hyfforddai, yn nodi rhifau cyswllt y Gweithiwr Allweddol, Ysgol, Coleg, Canolfan Ddydd, Lleoliad Gwaith, Cartref. Bydd manylion ynghylch sut i gael gwybodaeth deithio hefyd yn cael eu dangos yma h.y. Traveline Cymru a bws lleol (Stagecoach, Edwards, NAT) neu'r gweithredwr trenau.
- Cynllun teithio – manylion amseroedd, gwybodaeth fws a map ac arno dirnodau amlwg;
- Bandiau braich adlewyrchol lle'n briodol;
- Larwm ddiogelwch bersonol, lle'n briodol.

Cyrraedd yn hwyr, Salwch ac Argyfyngau

Os digwydd i unrhyw un sy'n rhan o'r Cynllun Teithio fod yn hwyr neu'n sâl neu mewn achos o argyfwng, bydd nifer o weithdrefnau mewn argyfwng wedi cael eu gosod yn eu lle. Cynlluniwyd y rhain i bawb eu dilyn a byddant yn gymorth i osgoi dryswch a phanig diangen. Bydd gwybodaeth benodol fel amseroedd dechrau a gorffen yr hyfforddiant yn ddibynnol ar y dysgwr a'r llwybr. Bydd pob parti yn cytuno arno ac yn ei arwyddo.

Cyn y bydd hyfforddiant yn dechrau, gofynnir i rieni / gofalwyr ddarparu manylion cyswllt mewn argyfwng ar gyfer y Cynllun Teithio. Dylid rhestru hyd at dri chyswllt gwahanol ble y mae hynny'n ymarferol. Bydd unrhyw wybodaeth feddygol / cyflyrau meddygol hefyd yn cael eu nodi yn y Cynllun Teithio. Nodwch fod pawb yn gyfrifol am ddiweddarau'r manylion hyn.

Bydd y Cynllun teithio yn nodi anghenion penodol y dysgwr ac felly, bydd y sawl a fydd yn gweithio â'r dysgwr wedi eu hyfforddi'n briodol.

Cyfrifoldeb pob hyfforddai ar y daith

Bydd y cyfrifoldeb ar gyfer y dysgwr yn cael ei amlinellu, ar bob cam o'r daith yn y Cynllun Teithio.

Digwyddiadau

Os digwydd damwain (bagladau, llithriadau, anafiadau bychan ac ati) disgwylir i'r sawl a fydd yn gyfrifol, gwblhau ffurflen ddigwyddiad ac atal yn unol â chynllun lechyd a Diogelwch yr ysgol neu'r lleoliad. Cynghori rhieni / gofalwyr o unrhyw ddigwyddiadau a bydd angen cytuno os ddylai hyfforddiant teithio barhau.

5. YMGYSYLLTIAD RHINIEN A GOFALWYR

Bydd y rheini a fydd yn gyfrifol yn gweithio'n galed iawn er mwyn sicrhau fod rhieni / gofalwyr yn ymwybodol o bob dim a fydd yn digwydd yn ystod yr hyfforddiant. Bydd hyn yn gymorth i rieni / gofalwyr weld y canlyniadau posib a'r manteision a fydd yn newid byd y dysgwr y gellir eu cyflawni. Bydd pob penderfyniad yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r sawl sydd yn gyfrifol er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer y dysgwr. Bydd disgwyliad i rieni / gofalwyr barhau i atgyfnerthu'r Cynllun Teithio y tu allan i oriau'r ysgol. Bydd hyn yn cynorthwyo llwyddiant y Cynllun Teithio.

6. MONITRO A GWASANAETH ÔL-OFAL

Bydd yr holl fonitro yn cael ei ddatblygu a'i drafod fel rhan o'r broses adolygu flynyddol, mewn cyfarfodydd CDU cyson a/neu mewn Nosweithiau Rhieni. Bydd hyn yn gymorth i sicrhau y bydd teithwyr annibynnol yn parhau i deithio'n hyderus a diogel wedi i'w hyfforddiant ddod i ben. Ar y cam hwn, bydd yr angen ar gyfer cludiant parhaus o'r cartref i'r ysgol yn cael ei adolygu.

7. CYSYLLTIADAU

- Lisa Beattie Arweinydd Tîm AAY
- Beattie, Lisa Lisa.Beattie@merthyr.gov.uk
- Danielle Jones, Swyddog Datganiadau
- Jones, Danielle Danielle.Jones@merthyr.gov.uk
- Paul Lewis, Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol
- Lewis, Paul Paul.Lewis@merthyr.gov.uk
- Steve Lewis, Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol
- Lewis, Steve Steve.Lewis@merthyr.gov.uk
- Gweithiwr Allweddol: _____
- Rhif Ffôn: _____ Rhif Symudol y Gwaith: _____
- Am gyngor ac arweiniad pellach, cysylltwch â Vicky Jefferson
- Vicky.Jefferson@merthyr.gov.uk

Cynllun Hyfforddiant Teithio: Cam 1

Cyd-deithio

Enw'r Dysgwr:			
Dyddiad geni:			
Ysgol/SAB:			
Llwybr a Gynlluniwyd			
Dechrau:		Gorffen:	
Modd o deithio:			
Bydd angen i mi wisgo/gymryd:			
Cam:			Cyfrifoldeb:
1.			
2.			
3.			
4.			

Cytundeb y Cynllun Hyfforddi

(Rhaid cynnwys cytundeb y Dysgwr, Gwarcheidwad/Gofalwr a'r Hyfforddwr Teithio)

Enw	Llofnod

Adolygiad o'r Cynllun Hyfforddiant Teithio Cam 1: (Ffurflen asesu i'w chwblhau cyn yr adolygiad)

Dyddiad Adolygu:

Y Bobl sy'n Bresennol:

Cofnod o'r Adolygiad:

Camau Nesaf:

Cynllun Hyfforddiant Teithio: Cam 2

Cysgodi

Enw'r Dysgwr:			
Dyddiad Geni:			
Ysgol/SAB:			
Llwybr a Gynllunnir			
Dechrau :		Diwedd :	
Modd o deithio:			
Bydd angen i mi wisgo/gymryd:			
Cam:		Cyfrifoldeb:	
1.			
2.			
3.			
4.			

Lleihau cysgodi:	
Cam 1:	
Cam 2:	
Cam 2:	
Cytundeb y Cynllun Teithio (Rhaid cynnwys llythyr cytundeb y Dysgwr/ Gwarcheidwad/Gofalwr a'r Hyfforddwr Teithio)	
Enw	Llofnod
Adolygiad o Gynllun Hyfforddiant Teithio Cam 2: (Ffurflen asesu i'w chwblhau cyn adolygiad)	
Dyddiad Adolygu:	
Y bobl sy'n bresennol:	

Cofnod o'r Adolygiad:

Camau Nesaf:

Cynllun Hyfforddiant Teithio: Cam 3

Cwrdd a Chyfarch

Enw'r Dysgwr:			
Dyddiad Geni:			
Ysgol /SAB:			
Llwybr a Gynllunnir			
Dechrau:	Diwedd:		
Modd o deithio:			
Bydd angen i mi wisgo/gymryd:			
Cam:		Cyfrifoldeb:	
1.			
2.			
3.			
4.			

Cytundeb y Cynllun Hyfforddiant

(Rhaid cynnwys cytundeb y Dysgwr, Gwarcheidwad/Gofalwr a'r Hyfforddwr Teithio)

Enw	Llofnod

Adolygiad o'r Cynllun Hyfforddiant Teithio Cam 2: (Ffurflen asesu i'w chwblhau cyn yr adolygiad)

Dyddiad yr Adolygiad:

Y bobl sy'n bresennol:

Cofnod o'r Adolygiad:

Camau nesaf:

Cyn gynted ag y bydd dysgwr yn gallu teithio'n annibynnol, dylai dderbyn
tystysgrif o'r hyn mae wedi ei gyflawni.